

# Mesuryddion clyfar: canllaw i asiantau gosod

## Beth yw mesuryddion clyfar?

Mesuryddion clyfar yw'r genhedlaeth nesaf o fesuryddion nwy a thrydan. Maen nhw'n cael eu gosod mewn cartrefi ar draws Prydain Fawr heb unrhyw gost ychwanegol i'r sawl sy'n talu'r bil, yn lle mesuryddion traddodiadol (gan gynnwys mesuryddion allwedd rhagdal).

Mae mesuryddion clyfar yn anfon darlleniadau mesurydd cywir yn awtomatig bob hanner awr, bob dydd neu bob mis. Os yw'r sawl sy'n talu'r bil wedi dewis anfon darlleniadau bob hanner awr neu bob dydd, ni fydd angen cymryd darlleniad mesurydd ar ddiwedd y denantiaeth. Daw mesuryddion clyfar gyda sgrîn ynni cartref sy'n dangos faint o ynni a ddefnyddir mewn punnoedd a cheiniogau, gan helpu tenantiaid a landlordiaid i gadw trefn ar eu biliau.

I wirio pa fath o fesurydd sydd yn yr eiddo ac a yw'r mesurydd yn y modd mesurydd clyfar, defnyddiwch **Declyn Gwirio Mesurydd Clyfar Cyngor ar Bopeth**.

## Pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar?

Gall fod dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am osod mesurydd clyfar. Mae Ofgem, y rheoleiddiwr ynni, yn dweud bod gan y sawl sy'n talu'r bil yr hawl i ofyn am osodiad mesurydd clyfar ac na ddylai'r landlord atal y gosodiad yn afresymol

Am fwy o wybodaeth, gweler gwefan Ofgem [yma](#).

## Cytundebau tenantiaeth

Gan mai'r sawl sy'n talu'r bil sydd â'r hawl i ofyn am osodiad mesurydd clyfar a bod y mesuryddion trydan a nwy yn eiddo i'r cyflenwr, byddem yn argymhell dileu cymalau sy'n mynnu caniatâd gan y landlord a bod landlordiaid yn cael eu hysbysu am hynny.

Nid yw'n bosib newid mesurydd clyfar i fesurydd traddodiadol ar ddiwedd y denantiaeth. Mae hyn oherwydd bod gofyniad ar gyflenwyr i osod mesuryddion clyfar fel rhan o'r Rhaglen Gweithredu Mesuryddion Clyfar.

## Y gosodiad

Gosodir mesuryddion clyfar gan gyflenwyr ynni neu drydydd parti a contractir ar eu rhan. Byddant yn trefnu i ddod i'r eiddo ar ddyddiad ac amser y cytunir arnynt. Bydd y broses osod yn cymryd tua dwy awr.

Mae'n rhaid bod gan y gosodwr gymhwyster ffurfiol i gwrdd â safonau cenedlaethol penodol fel a bennir gan y Cod Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar. Mae'r cyflenwyr ynni i gyd wedi ymrwymo i'r côd hwn, sy'n cael ei reoleiddio gan Ofgem, ac nhw sydd â'r pŵer i'w orfodi.

Bydd angen i rywun sy'n gyfrifol am yr eiddo fod yn bresennol yn ystod y gosodiad a sicrhau bod gan y gosodwr fynediad clir i'r mesurydd a bod y cwpwrdd mesurydd ar agor. Gall hyn olygu cysylltu â rheolwr yr adeilad i gael mynediad i'r ardal lle mae'r mesuryddion.

Mae'r mesurydd traddodiadol yn cael ei dynnu ymaith a gosodir mesurydd clyfar yn ei le. Mae'r mesuryddion clyfar o faint tebyg i fesuryddion traddodiadol ac fel arfer yn cael eu gosod yn yr un man â'r mesurydd gwreiddiol.

Fel rhan o'r broses osod, bydd angen i'r peiriannydd ddiffodd y nwy a'r trydan am gyfnod byr wrth i'r mesuryddion eu hunain gael eu newid. Ar ôl adfer y cyflenwad nwy i'r eiddo, bydd y peiriannydd yn gwneud gwiriad diogelwch nwy. Bydd y gosodwr hefyd yn dangos sut i ddefnyddio'r system mesuryddion clyfar, gan gynnwys y sgrîn ynni cartref, ac yn darparu cyngor ar effeithlonrwydd ynni.

## Difrod

Yn yr achos annhebygol y bydd difrod yn digwydd yn ystod y gosodiad, bydd y gosodwr yn cywiro hyn.

## Asbestos

Mae gan bob cyflenwr ynni a gosodwr ei bolisi asbestos ei hun sy'n pennu a allant gyflawni gosodiadau pan fydd byrddau gosod asbestos yn bresennol. Bydd y sefydliadau hynny'n darparu hyfforddiant perthnasol i gyfran o'u gosodwyr. Bydd y gosodwyr hynny'n cynnal asesiad risg i bennu a ellir cwblhau'r gosodiad yn ddiogel yn unol â phrosesau eu sefydliad ac yn rhoi cyngor fel y bo'n briodol.

## Mesuryddion rhagdal

Mae mesuryddion clyfar yn gweithio yn y modd rhagdal a'r modd credyd. Gall y sawl sy'n talu'r bil gysylltu â'r cyflenwr ynni i newid eu ffordd o dalu dros yr awyr heb orfod cael mesurydd newydd.

## Diwedd y denantiaeth

Ar ddiwedd y denantiaeth, mae'n bwysig bod y tenant yn gadael y sgrîn ynni cartref ar gyfer y tenant nesaf gan fod hon wedi'i chysylltu â'r mesurydd(ion) clyfar ac ni ellir ei throsglwyddo i fesuryddion eraill.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am fesuryddion clyfar ar gyfer rhentwyr preifat, gweler ein gwefan [yma](#).

